
Pris: 50c

# Papur Pawb

Mehefin 2026 Rhif 520



“Mae’n rhy oer! Dw i’n mynd yn ôl i Affrica!”

tud 4 Sam Ebenezer
tud 5 Yr Urdd
tud 11 Yn NATURiol
tud 12 CPD Tal-y-bont

# Anrhydedd i Wirfoddolwraig o Fri

**Mae’r Eisteddfod Genedlaethol wedi cyhoeddi enwau’r rheini fydd yn cael eu derbyn i Orsedd Cymru yn ystod Eisteddfod y Garreg Las eleni. Mae’r anrhydeddau’n cael eu cyflwyno’n flynyddol i gydnabod cyfraniad unigolion o bob rhan o Gymru i’w cymunedau, eu diwylliant a’r Gymraeg. Ac yn sicr, nid oes neb yn fwy haeddiannol o’r anrhydedd hyn na Jenny Jenkins o Benparcau, Aberystwyth. Mae Jenny yn adnabyddus ym mhentref Tal-y-bont, drwy fod yn aelod o deulu amlwg y Southgates.**



Yn unol â threfniadau Urddau er Anrhydedd Gorsedd Cymru, mae pob aelod newydd yn ymuno fel Derwydd, ac mae gan bob un enw barddol ac yn cael ei dderbyn i’r Wisg Werdd neu’r Wisg Las yn ôl ei faes arbenigedd. Bydd Jenny yn gwisgo’r Wisg Las am roi gwasanaeth arbennig i’w bro ac i’r genedl. Bydd y seremoni urddo’n cael ei chynnal ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol fore Gwener, 7 Awst.

Mae Jenny wedi gwneud cyfraniad eithriadol a di-dâl i waith dyngarol, nid yn unig yn ei chymuned leol ond hefyd ar lwyfan rhyngwladol. Yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19, bu’n gwirfoddoli’n frwd gyda Hwb Cymunedol Penparcau, gan gefnogi trigolion bregus a sicrhau bod cymorth hanfodol yn cyrraedd y rhai oedd ei angen fwyaf.

Ers dechrau’r rhyfel yn Wcráin yn 2022, mae Jenny wedi ymroi i ymdrechion cymorth rhyngwladol, gan deithio yno dro ar ôl tro – 45 gwaith hyd yn hyn - i gludo cyflenwadau brys. Mae wedi gwneud degau o deithiau, yn casglu, trefnu a dosbarthu bwyd, dillad ac offer meddygol, gan weithio’n ddiflino i gefnogi cymunedau sydd wedi’u heffeithio’n wael gan y gwrthdaro. Yn ystod y daith mwyaf diweddar, bu Jenny a thîm o wirfoddolwyr yn cludo pum car a sawl lori yn llawn cyflenwadau hanfodol. Ymhlith y rhain roedd nwyddau meddygol fel meddyginiaethau sylfaenol, eitemau ar gyfer mamau beichiog, a chyflenwadau ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal.

Yn ogystal â’i gwaith ymarferol ar lawr gwlad, mae Jenny’n defnyddio’r Gymraeg yn weithredol i godi ymwybyddiaeth o’r sefyllfa, gan ymweld ag ysgolion a siarad mewn digwyddiadau



cymunedol. Trwy wneud hynny, mae’n ysbrydoli eraill i gyfrannu a dangos undod, gan gryfhau’r cysylltiad rhwng Cymru a phobl Wcráin. “Mae’n hynod bwysig bod y bobl ‘ma yn gwybod bo’ ni yng Nghymru ar gael i’w helpu nhw”, meddai.

Drwy ei dewrder, ei hymroddiad a’i pharodrwydd i roi o’i hamser ei hun, mae Jenny nid yn unig wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau nifer o bobl, ond hefyd wedi ennill bri a chlod i Gymru ar lwyfan rhyngwladol.

Mae ei gyrfa fel plismones wedi’i hysbrydoli i helpu eraill, a’i bod yn annog mwy o bobl i gyfrannu. Er ei bod yn teimlo’n hynod falch o gael ei henwebu i’r Orsedd, pwysleisiodd mai’r gwaith gwirfoddol ei hun yw’r prif reswm dros ei hymrwymiad: “Mae’n fraint cael gwneud y gwaith a byddai’n parhau i’w wneud tra gallaf.”

Gyda’r Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las yn Llantwd ar y gorwel, ychwanegodd: “Dwi ddim yn berson eisteddfodol, cofiwch, a does gen i ddim syniad be’ i ddisgwyl ond mae’r teulu yn edrych ymlaen a fe ‘nawn ni joio’r diwrnod.” Mae un o blant Jenny, sef Dominic, a’i bartner Ceri, ynghyd â’i wyresau, Lela a Jessie, sydd wedi ymgartrefu yn Penlon-Las, yn hynod falch o’i chyflawniadau.

Yn ddi-os, mae ei chynhesrwydd, ei charedigrwydd a’i hymrwymiad yn ei gwneud hi’n ysbrydoliaeth wirioneddol i bawb sy’n ei hadnabod, yn enwedig drwy ei gwaith gwirfoddoli parhaus. Dymuniadau gorau i Jenny wrth iddi ddathlu ei diwrnod arbennig ym mis Awst.

## Papur Pawb


**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Non a Gerwyn gydag Iolo yn dylunio. Diolch iddynt.

Bydd Papur Pawb yn cymryd hoe dros yr haf.

Bydd y rhifyn nesaf yn ymddangos ar 11 Medi.

Y dyddiad cau fydd 4 Medi.


# Sioe Talybont

29 Awst 2026

**Caeau'r Llew Du, Talybont**



**Cystadlaethau Gwartheg • Defaid • Ceffylau**
**Pabell Fawr • Stondinau a Chrefftau**
**Sioe Gŵn • Cneifio • Hen Beiriannau • Rasys Cŵn**
**Gweithgareddau i blant**
**Adloniant gan Bwca**

**sioetalybontshow.com** **sioetalybontshow**


### CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r Henoed am gymorthdal o'r gronfa uchod.
Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth.
Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr Ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn y 30ain Mehefin.
Am ragor o fanylion cysyllter â Mrs Denise Morgan
Ffôn symudol: 07967 528196 neu e-bost:
helendglenholme@gmail.com

### YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

Cyfle unigryw i rentu gofod ar gyfer busnesau lleol.
Yn dilyn newid yn y denantiaeth bresennol, bydd gofod ar gael yn fuan o fewn adeilad Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth.
Am fwy o fanylion, cysylltwch ar e-bost:
post@jamespantyfedwen.cymru
neu ar y ffôn: 01970 612806


# argraffu

lleol a rhesymol



y lolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 / **www.ylolfa.com**
*Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com*


### CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Gymdeithas yn Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Nos Lun 6 Gorffennaf am 7.30**

Croeso i bawb sydd â diddordeb yn hynt a helynt ein papur bro.

**Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, *carysbriddon@btinternet.com* 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.**

# DYDDIADUR

### MEHEFIN

14 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, David Jones
**Rehoboth** 5 Carwyn Arthur
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Bethesda, Tynant** 2 Plant yr Ysgol Sul
17 **Coffi a Chlonc** 10.30–12 Neuadd Llanfach
18 **Sinfonia Cymru** 7 Cletwr
21 **Bethel** 10 Oedfa'r Ofalaeth yn Horeb, Penrhyn-coch, Judith Morris
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
25 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
28 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
30 **Ffilm: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd** 7.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

### GORFFENNAF

5 **Bethel** 10 Uno yn Seion, Tudur Dylan Jones
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid
12 **Bethel** 2 Rhidian Griffiths (C)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
15 **Coffi a Chlonc** 10.30–12 Neuadd Llanfach
19 **Bethel** 10 Uno yn Seion, Rhidian Griffiths
**Rehoboth** 2 Judith Morris
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
26 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

### AWST

2 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid
9 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
16 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
23 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
30 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

### MEDI

6 **Bethel** 10 Uno yn Seion, Andrew Lenny
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid
13 **Bethel** 10 Geraint Morse (C)
**Rehoboth** 2 Judith Morris
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

### BOB WYTHNOS

**Neuadd Goffa Tal-y-bont**
Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
**Cletwr**
Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

# Pobl a Phethe



**Bontgoch**

Ar y 6ed o Fai yn Swyddfa Gofrestru Aberystwyth priododd Steffan Evans o Penrhiw, Bontgoch a Sioned Llywelyn o Cwrt y Cadno, Llanilar. Roedd yn briodas fach a chartrefol, gyda brecwast priodas am 9 y bore ym *Medina*. Yn dilyn eu hymrwymiad o flaen eu rhieni a'u teulu agos, aeth y ddau yn syth o Aberystwyth i Faes Awyr Birmingham ac ymlaen i Rufain ar gyfer eu mis mêl. Llongyfarchiadau cynnes i'r ddau.

**Dawn disglair**



Cafodd Daniel Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont brofiad arbennig yn ddiweddar wrth gynrychioli Gorllewin Cymru ym Mharc y Scarlets, Llanelli. Roedd yn achlysur balch iawn iddo ef a'i deulu, ac yn gam pwysig yn ei ddatblygiad yn y gamp. Amdani Daniel!

**Dathlu pen-blwydd**

Pen-blwydd Hapus iawn a phob dymuniad da i Shân Evans, Tanllan ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

**Cartref newydd**

Pob dymuniad da i Hedd Llwyd Edwards sydd wedi symud i fyw i Fwthyn Elgar, Tal-y-bont. Mae Hedd yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol ac mae iddo gysylltiadau cryf â'r ardal hon. Mae ei ewythr Brian yn byw ym Mhenlôn a merch o'r pentref yw ei fam Siriol a hithau'n ferch i Rita a Hefin Llwyd sydd bellach yn byw yn Chwilog, Gwynedd.

**Yn gwella**

Yn dilyn anffawd yn ei chartref, Hafod Ifan, bu raid i Barbara Jenkins dderbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais a threuliodd nifer o wythnosau yno ac i ddilyn yn Y Bwa, Hafan y Waun. Gobeithio eich bod yn gwella ac yn teimlo'n well erbyn hyn Barbara.

**Pen-blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Jane Morgan, 1 Birkenhead Street, Tal-y-bont a David Gilbert, Sŵn y Nant, Tre'r-ddôl, ar ddathlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar, ac hefyd i Ioan Joseff, Maesyderi - pen-blwydd hapus i chi gyd!

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Pete a Ruth Dennis, Maes y Felin sydd wedi cael ŵyr bach, Rhuri.

**Gwobr Arian**

Derbyniodd Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach, Wobr Eco Eglwys Efydd ar 19 Ebrill 2026, ac mae'r posteri cysylltiedig bellach yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd y tu mewn i gyntedd yr eglwys.

Mae'r gwaith wedi parhau ers 19 Ebrill ar y paratoadau ar gyfer Gwobr Eco Eglwys Arian, ac mae hyn wedi cynnwys:

• cynnal asesiadau RSPB a gwenoliaid duon;
• datblygu cynllun rheoli Eco Eglwys, a fydd, unwaith y caiff ei gymeradwyo, yn cael ei ddosbarthu a'i wneud ar gael i'r cyhoedd ar hysbysfwrdd yr eglwys;
• datblygu system fonitro flynyddol er mwyn sicrhau cynnal safonau'r wobr yn barhaus;
• ysgrifennu at CADW i'w hysbysu o'r cynlluniau ar gyfer lleoli blychau gwenoliaid duon;
• cael cymeradwyaeth ar gyfer cynllun rheoli Eco Eglwys.

Ein nod yw cyflwyno'r cais am Wobr Eco Eglwys Arian erbyn diwedd mis Mai 2026.

**Bore coffi**



Cynhaliwyd bore coffi ar gyfer codi arian i'r elusen Cymorth Cristnogol yn y Neuadd Goffa ar fore Sadwrn 30 Mai. Cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd oedd £270. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau i Susan Rowlands, Erglodd ar y gwahoddiad i feirniadu defaid Zwartbles yn Sioe Frenhinol Cernyw.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
07939 604804

# Sam Ebenezer

**Bydd enw a wyneb Sam Ebenezer yn gyfarwydd i nifer helaeth o ddarllenwyr *Papur Pawb* erbyn hyn. Mae Sam yn berfformiwr proffesiynol rhyngwladol gyda CV trawiadol sy'n parhau i dyfu! Boed ar sgrin, ar y llwyfan neu ar y radio, does dim dweud ble y bydd Sam yn ymddangos nesaf.**

Cynnwyd y fflam perfformio yn Sam pan oedd yn grwt ifanc yn tyfu i fyny yn Nhal-y-bont. Roedd diddanu yn ei waed, ac roedd eisteddfodau yn rhan annatod o'i fagwraeth a'i ddatblygiad fel perfformiwr. Cafodd gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ei ddawn yn ystod ei addysg — yn gyntaf yn Ysgol Tal-y-bont ac wedyn yn Ysgol Uwchradd Penweddig.



Yn dilyn hynny, penderfynodd ddilyn ei freuddwyd trwy astudio yn academi gelfyddydau theatr byd-enwog *Mountview* yn Llundain — cam pwysig ar ei daith i lwyddiant.

Mae gyrfa Sam yn adlewyrchu natur ddeinamig y diwydiant perfformio. Dros y blynyddoedd, mae wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau sy'n dangos ei hyblygrwydd a'i dalent eang. Mae'n canu, yn chwarae offerynnau, yn dawnsio ac yn actio, yn ogystal â chynhyrchu a hyfforddi eraill. Mae ei waith wedi cynnwys perfformio ar y llwyfan, o flaen ac y tu ôl i'r camera, yn ogystal â diddanu mewn nifer o ddigwyddiadau a dathliadau.

Fel y gellid disgwyl, mae Llundain wedi bod yn ganolbwynt i'w yrfa, ac yno mae Sam wedi bod yn byw ers dros ddegawd. Er hynny, tra yn Llundain mae wedi cadw cysylltiadau cadarn â Chymru fach drwy ei gyfraniad i weithgareddau Canolfan Cymry Llundain ar Gray's Inn Road.

Yn ffodus, mae ganddo gariad mawr at deithio, ac mae'n manteisio ar bob cyfle i gyfuno hyn gyda'i angerdd dros berfformio. Mae hefyd yn parhau i gydweithio'n agos gyda chwmni lleol Haka Entertainment, gan gadw ei wreiddiau'n fyw.

Ymhlith uchafbwyntiau ei yrfa hyd yma mae ei berfformiad mewn rôl flaenllaw yn sioe agoriadol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 yn Nhregaron, yn ogystal â'i rôl fel *Detective Sergeant Trotter* yn nhrama enwog Agatha Christie *The Mousetrap* yn ystod dathliadau 70 mlynedd y cynhyrchiad yn y West End. Mae hefyd wedi serennu mewn sawl pantomeim poblogaidd ledled y wlad!

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae Sam yn rhan o gast y sioe gerdd boblogaidd *The Choir of Man*, lle mae'n cyflawni rôl *swing* — sy'n golygu ei fod yn gorfod dysgu a pherfformio pedair rhan wahanol, yn barod i gamu i mewn ar unrhyw adeg. Mae'r her a'r amrywiaeth hyn yn rhywbeth y mae'n ei fwynhau'n fawr.

Mae'r sioe wedi profi'n llwyddiant ysgubol, gyda rhediad estynedig yn y West End ac erbyn hyn ar daith o amgylch y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Wrth deithio, mae Sam hyd yn oed yn byw mewn fan wedi'i drawsnewid yn gartref symudol. Yn ddiweddar, llwyddodd hefyd i hedfan i Dde Affrica i berfformio ar long fordaith am dri diwrnod — bywyd prysur, ond hynod gyffrous! Mae Sam yn cydnabod ac yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ei deulu a'i gymuned leol. Mae'n falch iawn pan fydd darllenwyr *Papur Pawb* yn teithio i'w weld yn perfformio, ac mae bob amser yn croesawu'r cyfle i'w cyfarfod.

Er gwaethaf y bywyd prysur, tu hwnt i olau'r llwyfan mae Sam yn gwerthfawrogi'r pethau syml — treulio amser gartref gyda theulu a ffrindiau. Ac, yn rhyfedd iawn efallai, mae ei gariad at ddrama yn ymestyn i'r cae pêl-droed, lle mae'n ffyddlon i glwb Leeds United!

Llongyfarchiadau i Sam — brodor talentog arall sy'n rhoi ardal *Papur Pawb* ar y map. Pob lwc iddo yn y dyfodol disglair sydd yn sicr o'i flaen!





Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

# Eisteddfod Yr Urdd



*Glain, Prif Ddramodydd Eisteddfod yr Urdd*

**Llwyddiant i ddramodydd ifanc**

Llongyfarchiadau gwresog i Glain Llwyd, gynt o Dal-y-bont, a ddaeth i'r brig yn genedlaethol fel Prif Ddramodydd yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn eleni. Tasg y gystadleuaeth oedd cyfansoddi drama neu fonolog ar gyfer 1, 2 neu 3 perfformiwr (nid o reidrwydd cymeriadau), rhwng 15 a 30 munud o hyd, i'w llwyfannu mewn gofod theatrig. Teitl y ddrama yw *Tishe plant?*

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Tal-y-bont, mae Glain bellach yn byw yng Nghaerdydd wedi iddi gwblhau ei hastudiaethau BA Perfformio yn Academi Brenhinol Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru.

Yn ôl y beirniaid, Gareth Evans-Jones a Mared Llywelyn, derbyniwyd cyfanswm o 15 o geisiadau "mewn chwip o gystadleuaeth," gyda phob un yn "ddiddorol ac yn arbennig." Nodwyd eu bod wedi mwynhau darllen pob sgript a gyflwynwyd.

Wrth drafod gwaith yr enillydd, dywedodd y beirniaid fod Glain yn "ddramodydd hynod gyfforddus ac aeddfed." Ychwanegasant: "Mae'r syniad yn syml ond mae'r ddrama'n cynnig datguddiadau graddol, deialog chwareus a llachar. Mae'n llwyddo i gydbwyso'r dwys a'r difri mewn modd effeithiol, gan adael teimlad cynnes a llawn gobaith heb fod yn or-sentimental."

Mae Eisteddfod yr Urdd wedi bod yn rhan bwysig o fywyd Glain ers iddi gystadlu am y tro cyntaf yn chwech oed. Heddiw, mae'n aelod o Gwmni Theatr yr Urdd, a bydd yn ymddangos mewn un o'r prif rannau yn y sioe gerdd *Calon* yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym mis Awst.

Wrth sôn ar ôl ei llwyddiant, dywedodd: "Dw i wedi perfformio ar lwyfannau ers yn ifanc, fel aelod o Theatr Ieuenctid Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, clybiau Drama Arad Goch ac ar lwyfannau Tafwyl a'r Eisteddfod Genedlaethol fel aelod o'r grŵp Diffiniad,"

Ychwanegodd ei bod yn ddiolchgar i'w theulu a'i hysbrydoliaethau:

"Hoffwn ddiolch i Mam a Dad am fy annog i gystadlu ac i ysgrifennu, i Miri fy chwaer am roi ei barn onest ar y sgript cyn ei hanfon i'r gystadleuaeth, ac i Jarvis Cocker o *Pulp* am ysbrydoli fy ffug enw (Jarvis)!"

Derbyniodd Glain fedal arbennig a ddyluniwyd gan y gemydd Rhiannon o Dregaron. Rhoddir y wobr er cof am yr actores a'r cynhyrchydd Audrey Mechell, gan ei theulu.

Yn ogystal, bydd Glain yn cael y cyfle i fynychu Cwrs Olwen yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, er cof am Olwen Dafydd diolch i nawdd Ymddiriedolaeth Olwen Griffith. Bydd hefyd yn derbyn blwyddyn o fentoriaeth gyda Theatr Cymru fel Dramodydd Preswyl Ifanc, ynghyd â chyfleoedd hyfforddi pellach gyda'r BBC. Mae'r ddrama fuddugol *Tishe plant?* bellach wedi'i chyhoeddi gan Gyhoeddiadau'r Stamp ac ar gael mewn siopau llyfrau lleol.

Da iawn Glain a phob lwc i ti wrth i ti barhau i lwyddo ac i greu ym myd y ddrama.

**Llwyddiant arall i'r teulu yn yr Eisteddfod**

Mae llwyddiant wedi bod yn thema gyson i'r teulu eleni, wrth i chwaer Glain hefyd wneud yn arbennig o dda mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn. Llwyddodd Miri Llwyd i ddod yn drydydd allan o ugain o gystadleuwyr yn y gystadleuaeth Sioe Gerdd dan 25 oed, gan berfformio'r gân "Dead Mom" o'r sioe adnabyddus *Beetlejuice*.




*Miri ar lwyfan yr Eisteddfod*

Roedd y safon yn eithriadol o uchel, gyda nifer o berfformwyr talentog yn cystadlu, ac felly mae cyrraedd safle mor uchel yn gamp arbennig iawn. Dengys hyn nid yn unig ei thalent naturiol ond hefyd yr ymdrech, yr ymroddiad a'r angerdd sydd ganddi tuag at berfformio.

Mae'r llwyddiant hwn yn ychwanegu at enw da'r teulu fel un gwirioneddol dalentog, gyda dawn amlwg yn cael ei dangos gan y ddwy chwaer mewn meysydd gwahanol. Mae'n amlwg bod gwaith caled, ymrwymiad a chariad at eu crefft yn dwyn ffrwyth ac yn arwain at lwyddiant haeddiannol.

Yn ogystal, mae'n falchder gweld cyn-ddisgybl arall o Ysgol Tal-y-bont yn cyflawni mor llwyddiannus ar lwyfan cenedlaethol, gan adlewyrchu'n gadarnhaol ar y gefnogaeth a'r addysg a ddarperir yno. Mae hyn yn dyst i'r ffordd y mae'r ysgol yn parhau i feithrin, annog a datblygu talent ifanc, gan roi sylfaen gadarn i ddisgyblion lwyddo yn y celfyddydau a thu hwnt.


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00
01970 832 674

Garej Davmor
Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont


# Ysgol

**Cyffro'r Car Rali**




Bu cyffro mawr ar iard yr ysgol wrth i gar rali smart y ralïwr Tom Cave o Aberdyfi gyrraedd y iard. Cafodd pawb gyfle i eistedd yn y car, gwisgo helmed, gafael mewn tlws arbennig a chael llofnod Tom! Diolch yn fawr i Jane a Geraint o Rali Ceredigion am drefnu'r ymweliad.

**Twrnament Hoci Cylch Aberystwyth**



Er taw yn nhymor oer a gwlyb yr hydref mae'r gemau hoci fel arfer yn cael eu chwarae, roedd hi'n wych cael cymryd rhan yn y twrnament ar ddiwrnod braf o haf! Ar y diwrnod olaf cyn gwyliau hanner tymor y Sulgwyn, cafodd dau dîm fynd i gynrychioli'r ysgol ar y caeau aml-ddefnydd y tu allan i Ganolfan Hamdden Plascrug. Rhoddodd pawb o'u gorau unwaith eto ac fe lwyddodd y ddau dîm i ddod yn gyfartal mewn un gêm yr un – ac yna ennill pob un arall!

**Dosbarth Mynydd Gorddu**



Mae plant y Dysgu Sylfaen wedi bod yn hynod o brysur yn mwynhau dysgu am ein byd. Maen nhw wedi bod yn arsylwi ar hadau berwr (*cress*) yn egino a thyfu, ac yn arbrofi sut i greu swigod. Mae Llais y Disgybl yn gryf yma, ac ar gais un o'r plant, cafodd y dosbarth hwyl yn creu ac yna'n arbrofi gyda pharasiwtiau.

**Garddio**



Rydym yn ffodus iawn o fod wedi medru croesawu gwirfoddolwyr i ddod i'r ysgol i'n helpu i arddio. Mae Kate Fenhalls wedi bod yn cyd-weithio gyda grwpiau o blant yn chwynnu a pharatoi'r gwlâu plannu. Cawsom hefyd gwmni tair o Arddwyr Cletwr i'n helpu. Diolch yn fawr i bawb.

**Taith Gerdded Noddedig**





Roedd y tywydd yn berffaith ar gyfer ein taith gerdded noddedig ar ddydd Sadwrn 23ain o Fai. Fe gwrddon ni ar iard yr ysgol cyn mynd am dro hamddenol heibio'r parc a Phentre Bach cyn dilyn Llwybr Mai yn ôl i'r ysgol i gael picnic ar y cae. Rydym yn ffodus iawn o ble'r ydyn ni'n byw. Golygfeydd a chwmni hyfryd. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu, i bawb a ddaeth am dro ac i'r holl sydd eisoes wedi ein noddi. Bydd yr arian yn cael ei wario ar weithgareddau i hybu iechyd a lles yr holl disgyblion.

**Gwyliau Haf hapus i holl ddarllenwyr Papur Pawb**

# Tal-y-bont

### Dydd Gwener Gwyllt a Gwyddoniaeth



Fel rhan o'n thema "Y Byd Gwyrdd" y tymor yma mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn mwynhau datblygu eu sgiliau Gwylltgrefftio a Gwyddoniaeth ar ddyddiau Gwener. Hyd yn hyn, mae'r "Moch Medrus" a'r "Gwartheg Gwych" wedi creu torchau helyg, arwyddion pren i labelu'r ardd, cynnal ymholiadau i brofi beth sydd angen ar blanhigion gwyrdd i dyfu'n iach, arsylwi ar hadau ffa'n egino a chreu animeiddiadau.


Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553


## Ysgol Sul Bethel



Aelodau ifanc Ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont, a fu'n cymryd rhan yng Nghymanfa Undebol Gogledd Ceredigion a gynhaliwyd ym Methel, Aberystwyth, fore Sul 17 Mai.

## MERCHED Y WAWR, TAL-Y-BONT A'R CYLCH



Betty Jenkins yn dod i'r brig gyda'i chrefft

Yr ydym fel cangen yn ymfalchio yn llwyddiant Betty Jenkins ar ennill Tlws Coffa Jill Lewis yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth. Yr oedd y tlws ar gyfer yr eitem orau yn y dosbarth crefft. Llongyfarchiadau gwresog Betty, yr ydym yn rhannu eich hapusrwydd.

**Ymweliad â'r Tabernacl, Machynlleth**

Mewn ardal wledig fel Machynlleth, lle mae prinder poblogaeth, mae yna wyrth o adeilad - y Tabernacl. Yno y gwelir celfyddydau gweledol o'r radd uchaf ac awditoriwm ar gyfer artistiaid cerddorol boed yn gorau, cantorion unigol, neu offerynwyr. Teulu'r Lamberts a gafodd y weledigaeth ac maent yn dal i arwain y gweithgareddau o hyd. Mae nifer o bobl leol hefyd ynghlwm â'r gwaith boed ar bwyllgorau, neu drwy wirfoddoli.

Cawsom noson ddifyr pan groesawyd ni yno gan Dennis Jones un o ymddiriedolwyr y Tabernacl, ac ef a lywiodd y gweithgareddau drwy'r ymweliad. Cawsom weld ffilm am ddatblygiad yr oriel o 1984 a sut y maent yn dal i ddatblygu gan brynu adeiladau cyfagos a'u newid i bwrpas. Darparwyd bwffe blasus i ni gan Llinos Griffiths cyn mynd yn ôl i'r awditoriwm i weld dau gerflun o waith John Meirion Morris, Llanuwchllyn.

Cyn mynd adre, cawsom gyfle i edrych o gwmpas yr arddangosfa, rhyfeddu at y gwaith a sylwi ar waith ambell artist lleol yr oeddem yn ei adnabod. Diolch i Eryl Evans am drefnu noson mor ddiddorol.

*Diana Jones*



Yn ystod gwsanaeth yng nghapel Bethel ar fore Sul 31 Mai, dan ofal Dr Geraint Evans, derbyniwyd tri aelod o'r un teulu yn aelodau cyflawn o'r capel, sef Betsan, Bedwyr ac Ynyr, Tanrallt.

# Pumed Ŵyl y Peillwyr Cletwr – yr haul yn tywynnu eto!

Cynhaliwyd ein pumed Ŵyl y Peillwyr ddydd Sul 17 Mai eleni. Dyma gyfle i ddathlu ein pryfed peillio, dysgu mwy amdanyn nhw a sut i'w helpu, gan fod llawer ohonynt mewn trafferth enbyd. Os nad oeddech chi yno rydych chi wedi colli gwledd! Unwaith eto, roedden ni'n anhygoel o lwcus gyda'r tywydd gan iddi fwrw glaw y diwrnod gynt a'r diwrnod wedyn. Yn ogystal â'r stondinau arferol, daeth Paul Taylor, y Cofnodydd Gloÿnnod Byw ar gyfer Ceredigion, gyda'i stondin lliwgar, llawn gwybodaeth a hefyd Fiona Moran, Partneriaeth Natur Leol Ceredigion, gyda stondin hwyliog am bryfed hofran a chyfle i greu pwll iddyn nhw i'r ardd. Hefyd, gwahoddwyd plant ac oedolion i greu lluniau i'w rhoi ar y ffrâm sydd o gwmpas y bwrdd gwyn lle cofnodir bywyd gwyllt gerddi'r Cletwr. Ac wrth gwrs, roedd teisennau mêl blasus Val ar gael yn y caffi! Codwyd £55 mewn gwerthiant a rhoddion i'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn ac £81 drwy'r raffl, £134 ar y Twba Lwcus a £96.50 gan y stondin planhigion peillwyr-gyfeillgar, hyn oll i Gronfa Beillwyr Cletwr. Diolch o galon oddi wrth y Cletwr a'r peillwyr i bawb a gefnogodd yr Ŵyl mewn unrhyw ffordd.

*Siân Saunders*



*Dysgu am bryfed hofran*



*Y Twba Lwcus*

# Y Gair Olaf

**Gwyn ein byd!**

Trist iawn yw nodi, cydnabod a chydymdeimlo â phobloedd y byd sydd yn dioddef o bob math o anffawd a thrychineb – o newyn i ryfel i effeithiau newid hinsawdd ac afiechyd. Mae'n gysur rhyfedd, eithaf eironig ac, i ryw raddau, chwerthinllyd nodi mai achos yr halibalŵ mwyaf yn ddiweddar yn Aberystwyth yw cyflwyno ffi am barcio ar y Prom!

Er bod hyn yn arferiad hir-sefydledig yn y rhan fwyaf o gyrchfannau glan môr ar draws y wlad, mae'r newyddion 'syfrdanol' o Aber wedi cael sylw yn y cyfryngau cenedlaethol!

Teimlaf fod y math yma o ymateb yn adlewyrchiad o ba mor lwcus ydym ni o ran lle rydym yn byw. Dyma'r math o beth sy'n gwneud y penawdau; dyma'r pwnc llosg. Waw – on'd ydym ni'n ffodus? Pa mor chwyrn fyddai'r ymateb pe bai gennym rywbeth gwirioneddol ddifrifol i boeni a chwyno amdano?

Beth sy'n cyffroi canran o'r gymuned 'leol' gymaint nes eu bod yn chwythu'r ffroth oddi ar eu *Caramel Latte* (sy'n aml dros £5 y pop)? Yn yr oes sydd ohoni, mae cyfryngau cymdeithasol yn rhoi llwyfan i bobl gwyno am unrhyw beth a phopeth, ac mae materion fel hyn yn gallu ennill momentwm a phroffil ymhell tu hwnt y dylai nhw go iawn.


Yn wir, mae'n debyg bod y rhai sydd wedi bod yn "brwydro" yn erbyn y newid wedi rhoi llawer mwy o sylw iddo nag y byddai wedi'i gael pe bai wedi'i gyflwyno'n dawel bach! I'r mwyafrif llethol o dwristiaid, mae talu am barcio yn ddisgwyliad arferol. A bydd y rhan fwyaf o Gardis, sy'n graff 'da'r geiniog, yn gwybod yn iawn am y llefydd parcio rhad ac am ddim ar ac oddi ar y stryd ar draws y dre'!

Efallai ei bod hi'n bryd i rai ddeffro ac arogli'r coffi, rhoi pethau mewn cyd-destun rhesymol a call, a dechrau mwynhau a dathlu pa mor wyn yw ein byd!

Gerwyn Jones

# Cornel Cŵl

**Llun i'w liwio**



# Llwyddiant ar daith y MoonWalk yn Llundain



*Jen a Delyth yn cymryd rhan yn y MoonWalk*

**Yn ddiweddar, cymerodd Jennifer Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont ran yn y MoonWalk yn Llundain ar ddydd Sadwrn, 16 Mai. Ar ôl wythnosau o hyfforddiant a pharatoi trylwyr, llwyddodd Jen i gerdded y pellter llawn o 26.2 milltir yng nghwmni ei ffrind Delyth Jones, Temple Bar – camp arbennig iawn i'r ddwy!**

Mae'r *MoonWalk* yn ddigwyddiad elusennol adnabyddus sy'n cael ei gynnal yn y nos sy'n codi arian ar gyfer ymchwil canser y fron a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r clefyd. Mae cyfranogwyr yn cerdded naill ai marathon ("Full Moon") neu hanner marathon ("Half Moon"), gan wisgo bras wedi'u haddurno'n lliwgar i godi arian ar gyfer achosion canser y fron ac i gefnogi'r achos pwysig hwn, sy'n effeithio ar fywydau cynifer o deuluoedd.

Dechreuodd a gorffennodd y daith ar Clapham Common, gyda Jen a Delyth yn cychwyn ar eu hantur gyda'r nos. O'r fan honno, dilynwyd llwybr arbennig o amgylch rhai o safleoedd enwocaf Llundain – gan gynnwys golygfeydd godidog o dirnodau'r ddinas wrth iddi nosi. Roedd y profiad o weld Llundain wedi'i goleuo yn y nos yn wirioneddol gofiadwy – am olygfa arbennig!

Llwyddodd Jen i godi swm anhygoel o £1,960 tuag at yr achos teilwng hwn, ac mae'r ymateb gan y gymuned wedi bod yn wirioneddol arbennig. Mae'n mawr obeithio y bydd yr arian a gasglwyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf, gan gefnogi ymchwil a gofal hanfodol yn y frwydr yn erbyn canser y fron. Dywedodd ei bod wedi'i chyffwrdd yn fawr gan haelioni a charedigrwydd pawb, gan deimlo'n hynod emosiynol wrth weld faint o gefnogaeth a dderbyniodd. O roddion ariannol i eiriau o anogaeth a negeseuon caredig, mae pob cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Roedd y gefnogaeth ddi-baid gan deulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach yn ysbrydoliaeth enfawr iddi drwy gydol y cyfnod paratoi a'r daith ei hun, gan ei helpu i barhau hyd at y llinell derfyn.

Camp i'w chanmol, ac ysbrydoliaeth i eraill yn y gymuned.

MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
STORFA CARTREF A BUSNES
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro diogelwch 24 awr
Wedi ei wresogi
Bocsys a 'bubblewrap' ar lein
Ffôn : 01654 703592
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
sales@midwalesstorage.co.uk
www.midwalesstorage.co.uk

Mid Wales REMOVALS

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

**Bu'n fis hynod brysur i'r clwb, gyda digon o weithgareddau a llwyddiannau i'w dathlu!**

Yn gyntaf, cynhaliwyd Chwaraeon y Sir yn Ysgol Bro Teifi ar 9 Mai ac aeth tîm rownderi cymysg y clwb lawr i ddangos eu doniau. Llongyfarchiadau mawr i Alaw, Miri, Mari, Nesta, Osian, Dafydd a Wil am eu gwaith gwych ar y cae a diolch yn fawr hefyd i Rhun a Gwion o Glwb Pontsian am eu help i gefnogi'r tîm. Roedd hi'n hyfryd gweld y tîm yn ennill hyder ac yn gwella gyda phob gêm a chwaraewyd. Roedd y gêm olaf yn un arbennig o gyffrous, gyda buddugoliaeth wych o 5 rownder a hanner i 1a hanner! Da iawn bawb am eich ymdrechion a'ch perfformiadau rhagorol.



*Y tîm rownderi campus!*

Dros yr wythnosau diwethaf, bu llawer o baratoi ar gyfer Rali CFfI Ceredigion ar 6 Mehefin. Fel arfer, bu'r clwb yn brysur yn paentio'r arwydd – diolch o galon i'r holl aelodau a'r arweinwyr am roi o'ch hamser i'w greu a'i godi. Mae'r gwaith caled yn sicr yn talu ar ei ganfed!




*Yr arwydd yn ei le!*

Wedi i'r arwydd fynd i fyny, dechreuodd yr ymarferion o ddifrif ar gyfer y cystadlaethau amrywiol. Mae'r aelodau wedi bod yn brysur yn ymarfer barnu defaid a gwartheg, dawnsio, lapio gwlân, yn ogystal â'r Prif Gylch. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i ddysgu sgiliau newydd ac i fagu hyder – diolch i bawb sydd wedi rhoi eu harweiniad a'u cefnogaeth.



*Dysgu sgil trin gwlân*

Da iawn i bawb sydd wedi ymroi i gymryd rhan yn y cystadlaethau, ac i bawb sydd wedi helpu i ddangos a throsglwyddo'r sgiliau hyn i'r genhedlaeth nesaf.

*Ela Jones*

# Sudoku Papur Pawb

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 7 | 1 | 2 | | 8 | | |
| | 4 | | | 8 | | | | 6 |
| | 6 | | | 9 | | 7 | 1 | |
| | | 2 | | 6 | | 1 | | |
| 6 | 8 | | 7 | | | 4 | 2 | |
| | 1 | | | | 5 | | 8 | |
| 7 | | | | 5 | 1 | | 6 | 8 |
| 5 | | 8 | | 7 | | 2 | | 1 |
| 1 | | | 8 | | 2 | | 7 | 5 |

Dyma Sudoku Papur Pawb. Rhowch rhif o 1 i 9 ym mhob cell wag fel bod pob rhes, colofn a bwlch yn cynnwys pob rhif o 1 i 9 heb ail-adrodd. Cofiwch ddefnyddio rhifau Cymraeg yn unig!

## Ymdrechion Lola Foster



Mae Lola Foster wedi bod yn gwerthu losin a chacennau i godi arian ar gyfer Ysgol Tal-y-bont ac Apêl y Cae Bach, gan droi Garej Davmor yn siop groesawgar. Diolch i'w hymdrech, cododd £50 – £25 i'r ysgol a £25 i'r apêl – sy'n dyst i'w haelioni a'i hymroddiad.



## *Race for Life*

Cymerodd Ffion Davies a'i merch, Ellen, ran yn *Race for Life*, Aberystwyth ar ddydd Sul, 10 Mai, gan helpu i godi arian at ymchwil canser. Dangosodd y ddwy ymroddiad mawr wrth gwblhau'r ras ac roeddent yn falch o gymryd rhan mewn achos mor bwysig. Llongyfarchiadau i'r ddwy ar eu llwyddiant a'u hymdrechion wrth gefnogi achos da.

## Gwirfoddolwyr newydd yn dod â gobaith i'r Clwb Ieuenctid


**Mae awyrgylch o frwdfrydedd a gobaith i'w deimlo yng Nghlwb Ieuenctid Tal-y-bont wrth i nifer o wirfoddolwyr newydd gamu ymlaen i gefnogi'r clwb a'i aelodau ifanc. Yn dilyn galwad am gymorth yn gynharach eleni, mae amryw o unigolion wedi rhoi eu henwau ymlaen i helpu i greu amgylchedd diogel, hwyliog, croesawgar ac ysbrydoledig i bobl ifanc y gymuned.**

Mae'r clwb, sydd wedi bod yn ganolfan bwysig i bobl ifanc ers blynyddoedd, yn cynnig lle i gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a datblygu hyder. Bellach, gyda'r gwirfoddolwyr newydd hyn, disgwylir ehangu'r gweithgareddau a chynnig mwy o gyfleoedd i'r aelodau, gan gynnwys gweithgareddau creadigol, chwaraeon, a sesiynau llesiant.

Mae gwirfoddoli nid yn unig yn fuddiol i'r bobl ifanc, ond hefyd i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Mae'n gyfle i wneud gwahaniaeth go iawn yn y gymuned, adeiladu sgiliau newydd, a chwrdd â phobl newydd. I lawer, mae hefyd yn ffordd o deimlo'n rhan o rywbeth cadarnhaol sy'n cyfrannu at les y gymuned gyfan. Os oes unrhyw un arall â diddordeb mewn gwirfoddoli, mae'r clwb yn croesawu pawb – boed gennych sgiliau penodol neu dim ond awydd i helpu. Gall hyd yn oed ychydig oriau yr wythnos gael effaith fawr.

Yn y pen draw, mae llwyddiant unrhyw glwb yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned. Mae diolch yn mynd wrth gwrs i'r gwirfoddolwyr selog hynny sydd wedi cadw'r clwb i fynd am flynyddoedd maith, gan roi eu hamser a'u hegni'n ddi-flino. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr newydd hyn – gyda'n gilydd, mae dyfodol disglair o'n blaenau, ond mae lle i hyd yn oed mwy o bobl ymuno â'r daith.

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli, anfonwch neges drwy dudalen Facebook y Clwb: ***Clwb Ieuenctid Talybont Youth Club***.




**Grant Mayhew Ltd**
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

GWASANAETHAU
**JETTING**
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

# Yn NATURiol

**Gwledd yn yr Ardd?**

Ma’ bwyd yn bwysig i ni gyd. Dwi wedi bod yn arbrofi yn y gegin yn ddiweddar ac yn y tywydd braf dwi yn mwynhau cinio yn yr ardd. Dwi’n sylwi ar fywyd gwyllt lliwgar hefyd yn gwledda yn yr ardd…. ac nid ar y ‘Showstopper’ blodau ’chwaith…

Na, yr hyn sydd yn denu y ’deryn hardd Goch y Berllan i fy ngardd i yn yr haf ydy hadau y Goesgoch (*Herb Robert*) a Phig yr Aran Loywddail (*Shining Crane’s-bill*). Mae’r ddau blanhigyn efo rhannau coch llachar erbyn hyn ac yn edrych yn reit ddeiniadol. OK iawn, ‘chwyn’ neu ‘ffrwcs’ da ni’n tueddu galw rhein! Ond gan eu fod yn cynnig bwyd i’r adar dwi yn gadael llonydd i’r Goesgoch a’r Loywddail (nid oes gwreiddiau treiddgar ganddynt), er mwyn cael mwynhau gweld Coch y Berllan yn agos.



Deiet o hadau a flagur coed ffrwythau sydd at ddant Goch y Berllan ac efallai eich bo’ chi ’di sylwi arnynt yn bwydo ar flagur goed ceirios yn y gwanwyn. Er mor hardd eu golwg, roedd arfer difa yr adar ers talwm gan eu fod yn difrodi blagur coed ffrwythau, er nad ydwyf innau wedi sylwi ar unrhyw ddifrod.



*Coch y Berllan*

**Glöyn byw Glesyn y Celyn (*Holly Blue*)**

Dyma greadur arall lliwgar a welir yn yr ardd, yn enwedig os oes coed celyn ac iddew/iorwg yn agos. Dyma brif fwyd ar ddechrau bywyd y glöyn byw pert hwn, ond wedyn mae’r oedolion yn chwilio am flodau mwyar a *phrivet*.



*Glöyn byw Glesyn y Celyn*

**Glöyn byw y Fantell Dramor (*Painted Lady*)**

Mae adroddiadau lu eleni o weld y Fantell Dramor (*Painted Lady*) yn ein ardal, a mi rydw i wedi gweld nifer ar hyd yr arfordir. Efallai bo’ chi hefyd wedi eu gweld? Maent wedi hedfan yma o Ogledd Affrica! Roedd digon ohonynt i’w gweld yn Morocco ym mis Mawrth pan oeddwn i yna. Pwy fyddai’n meddwl byddant wedyn i’w gweld yma yn bwydo ar flodau gwyllt ar ymyl y ffordd yn Tal-y-bont?

Mae bywyd gwyllt yn ddibynnu ar flodau gwyllt. Mae gadael llecyn, neu caniatáu rhai chwyn yn yr ardd, yn cynnig bwyd a chysgod i natur. Ac hefyd weithiau yn darparu gwledd o liw i ni fwynhau os ydyn ni yn fodlon garddio efo natur.

*Lisa Tomos*







**Roedd y tywydd anhygoel yn ddiweddar yn hyfryd – ond oedd hi? Diolch i’n ffannau newydd, doedd hi ddim yn annioddefol o fewn y siop, er bod y gegin yn eithaf poeth. Cawsom ymweliad gan S4C/Radio Wales ym mis Mai i drafod effaith tywydd poeth ar fusnesau bach. Sgersli bilîf! Erbyn hyn, mae popeth wedi dychwelyd i’r arfer – glaw beunyddiol tan mis Medi, mae’n debyg!**



*Mari Mathias yn diddanu’r gynulleidfa*

Rydym wedi bod yn brysur iawn gyda digwyddiadau’r mis hwn. Cawsom ein diddanu gan Mari Mathias ac Elliw Jones gyda’u doniau cerddorol – diolch i gynllun *Noson Allan* am ei gymorth ariannol. Wedyn, bu Ian Richards (Tre’r-ddôl) yn annerch bron i hanner cant o bobl am hanes y Maen Tywyn, yr enghraifft hynaf hysbys o ysgrifennu yn y Gymraeg. Rydym bellach yn bwriadu cynnal mwy o sgyrsiau tebyg ar bynciau cyffredinol, efallai bob yn ail fis.

Mae arddangosfa newydd yn yr Oriel gan Stuart Evans. Bydd yn siarad am ei waith ac yn llofnodi llyfrau yng Nghletwr brynhawn Sul, 28 Mehefin, am 4.30yp. Mynediad am ddim.

Mae gennym gwpl o ddigwyddiadau eraill ar y gweill yn fuan. Ddydd Iau, 18 Mehefin am 7yh, rydym yn falch o groesawu dychweliad cerddorion ifanc talentog Sinfonia Cymru. Mae tocynnau ar gyfer y digwyddiad hwn am ddim, ac ar gael drwy eu gwefan: www.sinfonia.cymru.

Yna, ddydd Gwener 10 Gorffennaf, bydd Phil Wheeler yn dychwelyd gyda’i *Machynlleth Sunshine Band* am noson o jazz o safon uchel. Y tro hwn, bydd hefyd yn cael ei gyfeilio gan y grŵp harmoni agos, y *Bung Bung Belles*. Mae tocynnau ar gael o Cletwr neu wrth y drws.

Diolch i gefnogaeth Cyngor Ceredigion, mae ein gwefrydd cerbydau trydan (EV) newydd bellach wedi’i osod.

Mae ceisiadau am swydd Rheolwr Cyffredinol yng Nghletwr yn parhau’n agored tan 19 Mehefin.

Mae sawl prosiect cyffrous ar y gweill y tu ôl i’r llenni. Rydym yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynhyrchu a defnyddio mwy o’n hynni ein hunain, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ein costau. Ar yr un pryd, mae llawer o waith marchnata ar droed – gan nad yw’r sefyllfa economaidd yn hawdd i bawb, mae’n rhaid i ni ddenu mwy o gwsmeriaid drwy’r drws. Rydym hefyd yn chwilio am gyfleoedd grant i gefnogi ein gwaith yn y dyfodol.

Mae Cletwr yn dibynnu’n fawr ar ei wirfoddolwyr, cymaint â’i staff gwych. Mae nifer o wirfoddolwyr newydd wedi dechrau’n ddiweddar, ond byddem wrth ein bodd yn gweld ychydig mwy yn ymuno â ni – pobl a hoffai dreulio ychydig oriau yn helpu yn y siop, y caffi neu’r gegin. Mae’n brofiad pleserus iawn, ac rydym yn darparu hyfforddiant llawn.

Yr hyn fyddem yn arbennig o falch o’i weld yw mwy o bobl yn fodlon helpu gyda gwaith gweinyddol a thasgau tebyg, gan gynnwys ymchwil i’r grantiau a grybwyllwyd yn gynharach. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â ni ar: cletwr@cletwr.com. Gobeithio eich gweld yng Nghletwr yn fuan. Mwynhewch yr haul – pan mae o’n ymddangos!

*Nigel Callaghan*

# Chwaraeon a Hamdden

## Cinio diwedd tymor

**Nos Wener 29ain o Fai cynhaliwyd cinio diwedd tymor CPD Tal-y-bont. Fe gafwyd noson hwyliog iawn yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth, gyda dros 40 o chwaraewyr a ffrindiau i'r clwb yno yn mwynhau.**

Ar ddechrau'r noson cyflwynwyd y tlysau blynyddol, a dyma'r enillwyr:

**Chwaraewr Ifanc y Tymor:** Owen Roberts
**Sgoriwr Uchaf:** Aled Parry-Evans
**Chwaraewr y Rheolwyr:** Aled Parry-Evans
**Chwaraewr y Chwaraewyr:** Aled Parry-Evans

Roedd hi'n sicr yn noson i'w chofio i Aled Parry-Evans, a lwyddodd i gipio'r tri phrif wobr. Mae Aled wedi cael tymor gwych, yn arwain o'r blaen ac yn ymroi'n llawn i'r clwb. Mae ganddo gysylltiad cryf â'r pentref, gan ei fod yn fab i Conrad Evans, Maesyderi.



*Aled Parry-Evans gydag Owen Roberts*

Hefyd, rhaid llongyfarch Owen Roberts ar ennill tlws Chwaraewr Ifanc y Tymor yn ei dymor cyntaf gyda'r clwb, ac yntau ond yn 16 mlwydd oed ar ddechrau'r tymor.

Er na chafwyd unrhyw lwyddiant yn y gynghrair nac yn y cwpanau, roedd y tymor yn un cadarnhaol, gyda digon i edrych ymlaen ato pan ddaw'r tymor newydd.

*Evan Rowlands*

## Llwyddiant Rygbi

Cynhaliwyd noson wobrwyo Bae Ceredigion Dolphins yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth ar nos Wener, 5 Mehefin. Enillodd Cadi Wen, Neuadd Bryn Glas wobr Calon y Tîm dan 12. Cafodd Elsi Iago, Pantcoch ei henwi'n Chwaraewraig y Flwyddyn dan 10, tra enillodd Ellen Davies, Maes y Deri wobr Gwelliant Gorau yn y tîm dan 12.

Mae merched Tal-y-bont a Bontgoch ar y brig – da iawn i chi gyd. Rhai i'w gwylio ar lwyfan rygbi'r dyfodol!



*Cadi Wen, Calon y Tîm*



*Ellen Davies, Gwelliant Gorau*



*Elsi Iago, Chwaraewraig y Flwyddyn*

## Llwyddiant lleol ym Mhencampwriaethau *Deadly Dozen*

Cynhaliwyd Pencampwriaethau Prydeinig *Deadly Dozen* ddydd Sul, 24 Mai, yn Stadiwm Alexander, Birmingham. Roedd y gystadleuaeth heriol yn cynnwys 12 elfen ymarfer corff, ac yna 12 ras 400 metr, gan brofi cryfder a dygnwch y cystadleuwyr. Gan gystadlu mewn parau gyda Mel, llwyddodd Ceris Williams i sicrhau'r ail safle yn eu categori oedran – camp sylweddol ar lwyfan cenedlaethol.



## Lee Trundle yn Nhal-y-bont

Cynhelir agoriad swyddogol Cae'r Odyn Galch ar nos Wener 10 Gorffennaf gyda gêm rhwng tîm presennol Tal-y-bont â thîm o gyn-chwaraewyr. Yn chwarae yn y gêm fydd Lee Trundle, seren Abertawe yn y dyddiau a fu. Yn y gyfrol ar hanes y clwb disgrifiwyd ef fel hyn: *'...he had a wonderful repertoire of feints, dragbacks, step-overs, nutmegs and flick passes. His left foot was the stuff of legends...'* Ar y noson, gallwn ddisgwyl gweld yr holl driciau hyn gan y cymeriad anghonfensiynol a disglair hwn. Ar gyfer y digwyddiad, bydd y gatiau yn agor am 5.00 o'r gloch a'r gêm yn dechrau am 6.15. Pris mynediad i oedolion fydd £5 gyda mynediad am ddim i blant. Bydd lluniaeth ar werth ar y cae a pharcio mewn cae cyfagos.

Dewch yn llu - bydd yn siwr o fod yn noson i'w chofio!

